DAFYDD LLWYD ap Dafydd ab Einion ap Hywel o'r Drenewydd (bu farw cyn 1469), g r o fri yng Nghydewain yng nghanol y 15fed ganrif, a noddwr hael i'r beirdd

Enw: Dafydd Llwyd ap Dafydd ab Einion ap Hywel
Dyddiad marw: cyn 1469
Priod: Gwenllian ferch Maredudd ab Owain ap Gruffudd ab Einion
Plentyn: Elen ferch Dafydd Llwyd
Plentyn: Robert ap Dafydd Llwyd
Plentyn: Rhys ap Dafydd Llwyd
Rhiant: David ap Einion
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: g r o fri yng Nghydewain yng nghanol y 15fed ganrif, a noddwr hael i'r beirdd
Maes gweithgaredd: Dyngarwch; Barddoniaeth; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig
Awdur: Evan David Jones

Olrheiniai ei ach o Elystan Glodrydd. Symudasai un o'i hynafiaid o Gefnllys i Fochdre, ac ymsefydlodd ei dad yn y Drenewydd. Canwyd ei glodydd gan Lewis Glyn Cothi, Llawdden, a Guto'r Glyn, a phwysleisir cyfoeth ei wleddoedd a'i haelioni i'r beirdd. Ymddengys fod Hywel Swrdwal yn fath ar fardd teulu iddo, a bu ef farw ychydig o flaen ei noddwr. Ei wraig oedd Gwenllian ferch Maredudd ab Owain ap Gruffudd ab Einion, arglwydd y Tywyn. Bu iddynt ddau fab a merch - Rhys, Robert, ac Elen.

Yr oedd RHYS AP DAFYDD LLWYD yn ysgwïer i Edward IV, ac yn ystiward iddo yng Nghydewain, Ceri, Cyfeiliog, ac Arwystli. Bu hefyd yn llywodraethwr castell Trefaldwyn. Collwyd ef ym mrwydr Danesmore neu Fanbri, 1469. Canodd Dafydd Llwyd ap Llywelyn ap Gruffudd gywydd sy'n awgrymu bod ansicrwydd am ei dynged wedi'r frwydr. O'i enw ef y cafodd Prysiaid y Drenewydd eu cyfenw. Gwraig Rhys oedd Margaret ferch Ieuan ab Owain ap Maredudd, Neuaddwen.

Awdur

Evan David Jones, (1903 - 1987)

Ffynonellau

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894), 28

Heraldic Visitations of Wales and Part of the Marches between the years 1586 and 1613, under the authority of Clarencieux and Norroy, two kings at arms (Llandovery 1846), i, 314

Gwaith Lewis Glyn Cothi

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732748

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu